

Y CYNGOR

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 11.00 ar 06 GORFFENNAF 2018, yn Ystafell Gyfarfod y Weithrediaeth, Y Ganolfan Ddelweddu.

Yn bresennol: Dr Emyr Roberts; Cadeirydd y Cyngor; Ms Gwerfyl Pierce Jones, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor; Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; Ms Anne Davies (trwy Skype); Mr Keith Evans; Mr Richard John; Mr Ian MacEachern; Dr Hazel Davey (heblaw am gofnod 106); Yr Athro Reyer Zwigelaar; Ms Kath Williams; Mr Bruce Wight, Swyddog Datblygu'r Undeb, UMaber; a Ms Anna Wyn Jones, Llywydd UMCA.

Yn gweinyddu: Yr Athro John Grattan, Dirprwy Is-Ganghellor (Profiad Myfyrwyr a Rhyngwladol); Mrs Lucy Hodson, Cyfarwyddwr Cynllunio; Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Dr Rhodri Llwyd Morgan, Dirprwy Is-Ganghellor (Y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol); Mrs Esther Prytherch, Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus; a Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Mr George Ashworth; Ms Rebecca Davies, Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu); y Gwir Anrhydeddus Elfyn Llwyd; Mr Nick Rogers, Cyfarwyddwr Strategaeth Newid; a'r Athro Chris Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil).

84. MATERION PERSONOL A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

1. Croeso

Croesawyd y canlynol i'r cyfarfod:

1. Anna Wyn Jones, Llywydd UMCA a Swyddog Diwylliant Cymru Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth (UMaber), a oedd yn bresennol yn ei chyfarfod cyntaf fel aelod ers dechrau yn y swydd ar 01 Gorffennaf 2018; a
2. Dr Anwen Jones, Pennaeth yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu, a oedd yn bresennol yn rhan o'r drefn datblygu gyrfa.

2. Cworwm

Oherwydd nifer yr ymddiheuriadau a dderbyniwyd oddi wrth Aelodau Annibynnol nid oedd yr elfen hon o aelodaeth y Cyngor yn y mwyafrif. Felly, ni fyddai cworwm i'r cyfarfod, a sail gynghorol fyddai i bob trafodaeth tan y ceid cworwm ac y byddai pob dealltwriaeth y daethpwyd iddo'n cael eu cymeradwyo'n ffurfiol.

3. Cydymdeimlad

Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r Athro Meic Stevens, awdur ac ysgolhaig a Chymrawd Anrhydeddus o'r Brifysgol.

4. Aelodau Annibynnol Newydd

Yn dilyn ymarfer recriwtio, cytunodd yr aelodau trwy ohebiaeth i benodi Samantha Blackie; Yr Athro Ian Diamond; a'r Athro Robin Williams yn Aelodau Annibynnol Newydd ar y Cyngor. Yn anffodus, nid oedd un o'r aelodau newydd yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod hwn, a byddent felly'n dechrau eu tymhorau ar 01 Awst 2018.

5. Cod Taliadau AU

Cyhoeddwyd Cod Taliadau i aelodau Uwch Staff Addysg Uwch Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion ym mis Mehefin 2018. Roedd Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Cyngor wrthi'n sicrhau y caiff ei ymgorffori yn nhrefniadau taliadau'r Brifysgol wrth symud ymlaen.

6. Sesiynau Gwybodaeth

Cyn y cyfarfod ffurfiol, cafodd sesiwn wybodaeth ei threfnu i aelodau'r Cyngor ynglŷn â marchnata a denu myfyrwyr. Byddai copiâu fideo o'r sesiwn anffurfiol hon ar gael trwy safle SharePoint i'r aelodau nad oeddent yn gallu bod yno yn y bore (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

85. GWRTHDARO BUDDIANNAU

NODWYD

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion eraill i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

86. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mai 2018 (COU1718-105).

CYNGHORWYD

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

87. MATERION YN CODI O'R COFNODION

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU1718-106).

NODWYD

Y diweddariadau a ddarparwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

88. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1718-107).

NODWYD

1. Manylai'r adroddiad ar yr adegau ers cyfarfod diwethaf y Cyngor y cafodd materion eu cymeradwyo naill ai gan aelodau trwy ohebiaeth, neu'n weithredol gan Gadeirydd y Cyngor yn unol â darpariaethau Rheol Sefydlog.
2. Y mater a gymeradwywyd gan yr aelodau trwy ohebiaeth oedd:
 1. penodi Aelodau Annibynnol i wasanaethu ar y Cyngor neu'r is-bwyllgorau.

3. Y materion a gymeradwywyd trwy gamau gweithredol gan Gadeirydd y Cyngor oedd:
 1. cyflwyno Cynllun Ffioedd a Mynediad diwygiedig 2019-20 i'r Cyngor Cyllido; a
 2. caffael Adnodd Credyd Cylchdroawl, yn amodol ar gymeradwyaeth y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth.

89. GOHEBIAETH

Nid oedd Ysgrifennydd y Brifysgol wedi derbyn gohebiaeth nad oedd eisoes wedi'i ddwyn i sylw'r aelodau.

90. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (COU1718-108).

NODWYD

1. Roedd pump o brif adrannau i'r adroddiad: adroddiad am uchafbwyntiau; adroddiad manwl ar ddenu myfyrwyr, materion cynllunio yn ogystal â ffactorau allanol pwysig; adroddiad ynglŷn â chyfathrebiadau, a chrynodeb o grantiau a ddyfarnwyd yn ddiweddar i'r Brifysgol.
2. Llongyfarchodd yr aelodau staff a myfyrwyr y Brifysgol ar ennill safon Aur yn y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu a Chanlyniadau Myfyrwyr a gyhoeddwyd ar 06 Mehefin 2018.
3. Gwnaed penderfyniad ar y cynnig terfynol i ad-drefnu'r Brifysgol ar 14 Mehefin 2018. Cafodd y rhai yr oedd eu swyddi mewn perygl eu hysbysu'n ffurfiol am benderfyniad y Pwyllgor ac roedd y drefn i benodi i swyddi newydd eisoes ar droed. Tynnodd yr aelodau sylw at y ffaith fod y penderfyniad ynglŷn â'r cynnig ad-drefnu terfynol wedi'i wneud gan Bwyllgor o'r Cyngor a sefydlwyd i'r diben, ac nid gan y Cyngor llawn fel yr awgrymwyd yn adroddiad yr Is-Ganghellor.
4. Roedd y Brifysgol wedi ennill achrediad am bum mlynedd i ddarparu Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon yn dilyn cais llwyddiannus i Gyngor y Gweithlu Addysg. O fis Medi 2019, byddai Ysgol Addysg y Brifysgol yn darparu rhaglen newydd arloesol o hyfforddiant i athrawon, yn cynnig dau lwybr i Statws Athrawon Cymwysedig.
5. Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Addysg, Kirsty Williams AC, yn gynharach yn yr wythnos y byddai myfyrwyr yr UE sy'n gwneud cais am le mewn prifysgolion yng Nghymru am flwyddyn academaidd 2019-20 yn dal i fod yn gymwys am gymorth ariannol. Croesawyd y cyhoeddiad yn gynnes gan yr aelodau.
6. Yn dilyn ymarfer caffael, nodwyd y contractwr ffafriedig ar gyfer gwaith adnewyddu Pantycelyn ac roedd y cyfnod segur statudol o 10 diwrnod bellach wedi dechrau. Byddai angen elfen o beirianneg gwerth dros yr wythnosau i ddod cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau o ddifrif dros yr haf. Roedd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, Eluned Morgan AC, wedi ymweld â Phantycelyn y diwrnod blaenorol ac wedi rhoi cadarnhad ffurfiol o grant o £5miliwn gan Lywodraeth Cymru tuag at y prosiect.
7. Roedd Pwyllgor Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Craffu ar waith y Prif Weinidog yn cyfarfod yn yr Hen Goleg y bore hwnnw. Yn dilyn y sesiwn, byddai Cadeirydd y Cyngor a'r Is-Ganghellor yn cyfarfod â'r Prif Weinidog, y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC, i drafod datblygiadau diweddar yn y Brifysgol.

8. Byddai'r Gweinidog Diwylliant Twristiaeth a Chwaraeon, Dafydd Elis-Thomas AC, hefyd yn ymweld â'r Hen Goleg yn nes ymlaen yn y dydd i gyfarfod â chynrychiolwyr o'r Brifysgol a chael gwybodaeth am y cynigion i adnewyddu'r adeilad hwnnw.
9. Croesawodd yr aelodau'r ffaith fod diweddariad ar iechyd a diogelwch wedi'i gynnwys yn rhan o adroddiad yr Is-Ganghellor, ac awgrymwyd y gellid adrodd mewn fersiynau yn y dyfodol ynglŷn â metrigau allweddol, megis Rheoliadau ynglŷn ag Adrodd am Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (RIDDOR) (**GWEITHREDU**: Rheolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd).

91. ADRODDIAD GAN UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Swyddog Datblygu UMAber (COU1718-109).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad fanylion diweddaraf y datblygiadau yn UMAber ers cyfarfod diwethaf Cyngor y Brifysgol.
2. Llongyfarchwyd UMAber gan yr aelodau ar ennill gwobr Pobl yr NUS a gwobr Democratiaeth yr NUS yng Nghynhadledd a Gwobrau Undebau Myfyrwyr yr NUS 2018 a gynhaliwyd yn yr NEC, Birmingham ynghynt yn yr wythnos.
3. Roedd yr Is-Ganghellor wedi gwneud cais i gael cyflogi pensaer i adolygu gofynion gofod UMAber er mwyn sicrhau y gellid ffurfio cynlluniau addas yng nghyd-destun Strategaeth Ystadau nesaf y sefydliad, yn ogystal â'r gwaith sy'n mynd rhagddo i ailwampio'r sgwâr o flaen Canolfan y Celfyddydau (**GWEITHREDU**: Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu)).

92. CYNLLUN STRATEGOL 2018-2023 DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio; a Phennaeth Datblygu Strategol (COU1718-110).

NODWYD

1. Ar 23 Mawrth 2018, cytunodd y Cyngor ar 12 o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol - 10 ohonynt yn gysylltiedig â gweithgareddau nad oeddent yn ariannol. Erbyn hyn, datblygwyd targedau ar gyfer y 10 dangosydd hynny.
2. Felly, byddai cyfres bellach o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol manylach yn cael eu monitro gan Weithrediaeth y Brifysgol yng nghyswllt y Cynllun Strategol ac is-strategaethau sydd ar y gweill, yn ogystal ag agweddau mwy gweithrediadol y Brifysgol. Byddai'r rhain yn cael eu rhannu fel rhan o'r amserlen o sesiynau 'rhannu syniadau' thematig sy'n cael ei datblygu ar gyfer y corff llywodraethu.
3. Cafodd y gwerthoedd arfaethedig eu hystyried gan y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth ar 15 Mehefin 2018, lle'r argymhellodd yr aelodau a dylai'r Cyngor eu cymeradwyo, yn amodol ar un newid bach. Cafodd y fersiwn a ddosbarthwyd i'r Cyngor ei ddiwygio'n unol â hynny.

CYNGHORWYD

4. Cymeradwyo'r gwerthoedd targed arfaethedig i'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr Cynllunio).

93. DIWEDDARIAD ARIANNOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid; a'r Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol Mark Godsell (COU1718-111).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad ddisgrifiad o berfformiad ariannol y Brifysgol hyd at 25 Mehefin 2018, yn ogystal â'r manylion diweddaraf am ddangosyddion perfformiad eraill sy'n gysylltiedig â chyllid.
2. Holodd yr aelodau ynglŷn â'r tanwario a broffwydwyd yn erbyn y ddarpariaeth yn y gyllideb gyfredol i ariannu gweithgaredd ysgogi, er bod y ddarpariaeth wedi'i sefydlu mewn ymateb i geisiadau gan adrannau am gyllid o'r fath. Roedd yr Is-Ganghellor a'r Cyfarwyddwr Cyllid yn ystyried y tanwario er mwyn gallu rhagweld yn well yn y dyfodol faint o alw a fyddai am gyllid ysgogi.

94. CYNLLUN GWEITHREDU CYNALIADWYEDD (CGC)

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid; Cyfarwyddwr Newid Strategol; y Cyfarwyddwr Cynllunio; a'r Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol Mark Godsell (COU1718-112).

NODWYD

Rhoddai'r adroddiad fanylion diweddaraf ynglŷn â'r arbedion a wnaed hyd yn hyn yng nghyswllt targedau'r CGC; y ffactorau ariannol yn dylanwadu ar gyflawni o'i gymharu â thargedau; a'r dull lliniaru risg a sefydlwyd.

95. CYLLIDEB 2018-19, A RHAGOLYGN ARIANNOL Y BLYNYDDOEDD TAN 2022

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol, Mark Godsell (COU1718-113).

NODWYD

1. Roedd y gyllideb arfaethedig am 2018-19 yn ymgorffori ail flwyddyn y Cynllun Cynaliadwyedd, ac yn adlewyrchu'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn yng nghyswllt targedau'r Cynllun.
2. Ystyriwyd y gyllideb ddrafft gan y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth ar 15 Mehefin 2018, lle croesawodd yr aelodau'r cynigion i liniaru'r risgiau mae'r Brifysgol yn eu hwynebu, rhai ohonynt yn rhai cyffredin yn y sector. Croesawyd yn arbennig y camau a gymerwyd i wrthbwyso'r darpariaethau hyn wrth gadw rhagamcanion doeth ynglŷn â nifer myfyrwyr, gan y byddent yn sicrhau y gellid cyflawni'r alldro cyllidebol a gynlluniwyd, fel y nodwyd yn y Cynllun Cynaliadwyedd.
3. Atgoffwyd yr aelodau mai dim ond amcan o'r prosiectau cyfalaf a fyddai'n cael eu symud ymlaen yn ystod 2018-19 o dan y rhaglen Gwarchod a Sefydlogi a gynhwyswyd yn y gyllideb ddrafft, ac mai dim ond cyfanswm y cyllid cyfalaf ar gael a oedd yn cael ei gymeradwyo'n rhan o'r gyllideb. Byddai prosiectau unigol yn dod gerbron i'w gymeradwyo ymhen amser, yn unol â'r trothwyon cwblhau cymwys.

CYNGHORWYD

4. Y dylid cymeradwyo'r gyllideb arfaethedig am 2018-19 (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cyllid).

96. AIL-DDYNODI CRONFEYDD GWADDOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol Nansi George (COU1718-114).

NODWYD

1. Ar 18 Mai 2018, cymeradwyodd y Cyngor argymhelliad y pwyllgor y dylai £5.2m o gronfeydd gwaddol Grŵp 1 - a roddwyd i'r Brifysgol i ddibenion cyffredinol - gael eu hail-ddynodi tuag at y gwaith o adnewyddu Pantycelyn. Ers hynny, roedd y Brifysgol wedi cael cyngor cyfreithiol pellach ynglŷn â'r gronfa 'Degymu a Chabidylu' yn cadarnhau y gellid ail-ddynodi'r arian hwnnw hefyd i ddibenion cyffredinol.
2. Roedd yr adroddiad felly'n argymhell ail-ddynodi £1.8m o'r gronfa 'Degymu a Chabidylu' tuag at adnewyddu Pantycelyn. Byddai hyn yn cyflawni'r pecyn cyllid £12m tuag at y prosiect. Byddai gweddill y gronfa 'Degymu a Chabidylu' yn parhau wedi'i fuddsoddi fel cronfa waddol cyfalaf tan y daw penderfyniad gan y Cyngor yn y dyfodol i ddefnyddio'r arian tuag at brosiectau cyfalaf eraill.
3. Cafodd yr ail-ddynodi arfaethedig i'r gronfa 'Degymu a Chabidylu' ei ystyried gan y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth ar 15 Mehefin 2018, lle'r argymhellodd yr aelodau y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r cynnig.

CYNGHORWYD

4. Ail-ddynodi £1.8m o'r gronfa 'Degymu a Chabidylu' tuag at adnewyddu Pantycelyn (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cyllid).

97. ADNODD CREDYD CYLCHDROAWL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1718-115).

NODWYD

1. Ar 08 Mehefin 2018, roedd Cadeirydd y Cyngor wedi ystyried yr adroddiad a gylchredwyd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth ar 15 Mehefin, ac wedi cymeradwyo, ar ran y Corff Llywodraethu, y cynnig i gaffael Adnodd Credyd Cylchdroawl yn amodol ar gymeradwyaeth ddilynol y Pwyllgor C&S.
2. Yn dilyn cymeradwyaeth aelodau'r Pwyllgor C&S, cysylltwyd â'r Cyngor Cyllido i gael eu cymeradwyaeth, yn unol â'r Cod Rheoli Cyllidol. Ymatebodd CCAUC ar 28 Mehefin 2018 yn rhoi eu cymeradwyaeth, ond yn gofyn am gadarnhad ar faterion amrywiol, gan gynnwys gofyn a oedd y Cyngor wedi cymeradwyo'n ffurfiol y penderfyniad a wnaed ar ei ran gan y Cadeirydd.
3. Roedd trafodaethau â'r benthyciwr a ffafirir yn dechrau'n awr ynglŷn â manylion terfynol yr Adnodd Cylchdroawl, a byddai copi o'r telerau ac unrhyw gyfamod a wneir yn cael eu cylchredeg i aelodau'r Cyngor er gwybodaeth ymhen amser (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cyllid).

CYNGHORWYD

4. Cadarnhau'n ffurfiol gymeradwyaeth y Cadeirydd, a chymeradwyaeth ddilynol y Pwyllgor C&S, i gaffael Adnodd Credyd Cylchdroawl (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr Cyllid).

98. AD-DREFNU PWYLLGORAU'R BRIFYSGOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1718-116).

NODWYD

1. Ar 18 Mai 2018, cymeradwyodd y Cyngor mewn egwyddor ad-drefnu pwyllgorau'r Brifysgol. Ers hynny, drafftwyd cylchoedd gorchwyl i'r chwe is-bwyllgor newydd neu ddiwygiedig a fyddai yn y dyfodol yn adrodd i'r corff llywodraethu. Roedd y rhain wedi eu nodi yn yr adroddiad.
2. Nid oedd manylion am yr aelodau staff a fyddai'n bresennol i weinyddu mewn cyfarfodydd wedi eu cynnwys yn fwiadol wrth aros i broses ad-drefnu'r Brifysgol gael ei chwblhau. Byddai'r enwau hyn yn cael eu cytuno gyda chadeiryddion Pwyllgorau unigol ymhen amser (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).
3. Holwyd ynglŷn â'r gostyngiad a gynigiwyd yn nifer cynrychiolwyr y Senedd ar rai is-bwyllgorau. Eglurwyd y byddai cydweithwyr academiaidd yn dal i wneud cyfraniad sylweddol yn gynharach yn y broses wrth ddatblygu cynigion.
4. Roedd Swyddog Datblygu UMAber yn ymgynghori â'i gyd-swyddogion sabothol i weld a ddylid cadw cynrychiolydd myfyrwyr ar y Pwyllgor Archwilio, Risg ac Aswariant. Bwriadai roi gwybod i Ysgrifennydd y Brifysgol pa gasgliad y daethpwyd iddo cyn cyfarfod cyntaf y Pwyllgor dan sylw (**GWEITHREDU**: Swyddog Datblygu UMAber).

CYNGHORWYD

5. Y dylid cymeradwyo cylch gorchwyl arfaethedig y chwe is-bwyllgor, yn amodol ar (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol):
 1. Gael cyfarwyddyd gan y Cyngor Cyllido ynglŷn â chynnwys y gair 'Aswariant' yn nheitl y Pwyllgor Archwilio, Risg ac Aswariant; a
 2. Newid geiriad ail baragraff cylch gorchwyl y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad, o dan 'Gweithredu' fel hyn: "Er mwyn darparu sicrwydd addas i'r Cyngor, fe fydd y Pwyllgor:"

99. CYTUNDEB PERTHYNAS GYDAG UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1718-117).

NODWYD

1. Mae'n amod gan y Cyngor Cyllido bod Prifysgolion ac Undebau Myfyrwyr yn creu cytundeb perthynas, y dylid ei gymeradwyo bob blwyddyn gan Gorff Llywodraethu'r sefydliad, ei adolygu'n flynyddol mewn pryd ar gyfer y flwyddyn academiaidd newydd, a'i lofnodi gan y Swyddogion Myfyrwyr sy'n dechrau yn eu swyddi.

2. Adolygwyd Y Cytundeb Perthynas mewn ymgynghoriad â Swyddog Datblygu'r Undeb a'r Is-Ganghellor. Nid oedd newidiadau'n cael eu cynnig i'r cytundeb fel y saif ar hyn o bryd o ganlyniad i'r adolygiad.

CYNGHORWYD

3. Y dylid cadw'r Cytundeb Perthynas cyfredol am y flwyddyn academaidd i ddod, yn amodol ar newid teitl pwynt dau yn y Gymraeg i "Canoli ar y Myfyrwyr" (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

100. AMRYWIAD AR GYNLLUN FFIOEDD A MYNEDIAD 2018–19

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio; a Phennaeth Datblygu Strategol (COU1718-118).

NODWYD

Mae'n rhaid i'r Brifysgol ddarparu rhestr o'r holl raglenni sy'n cael eu darparu gan bartneriaid trwyddedig yn rhan o Gynllun Ffioedd a Mynediad y sefydliad. Ym mis Mai 2017, pan gafodd Cynllun Ffioedd a Mynediad 2018-19 ei baratoi roedd rhai o'r rhaglenni heb eu cymeradwyo. Roedd yn rhaid i'r Brifysgol felly gyflwyno cais am amrywiad i'w Chynllun Ffioedd a Mynediad.

CYNGHORWYD

Anfon y cais am amrywiad i Gynllun Ffioedd a Mynediad 2018-19 at Y Cyngor Cyllido (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cynllunio).

101. YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU - 'BUDD Y CYHOEDD A CHYMRU FFYNIANNUS'

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio; a Phennaeth Datblygu Strategol (COU1718-119).

NODWYD

1. Roedd Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ynglŷn â newidiadau i'r drefn Hyfforddiant ac Addysg Ôl-Orfodol, a fyddai'n dod ag addysg uwch, addysg bellach, a'r chweched flwyddyn mewn ysgolion ynghyd o dan un corff rheolaethol.
2. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno ymateb drafft y Brifysgol i'r ymgynghoriad, a fyddai'n cau ar 17 Gorffennaf 2018. Trafododd yr aelodau'r ymateb arfaethedig.

CYNGHORWYD

3. Cyflwyno'r ymateb drafft, yn amodol ar fân newidiadau i adlewyrchu sylwadau a wnaed yn ystod y drafodaeth flaenorol (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cynllunio).

102. AELODAU ANNIBYNNOL AR YR IS-BWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1718-120).

NODWYD

1. Yn dilyn penderfyniad y Cyngor ar 18 Mai 2018 i gymeradwyo mewn egwyddor ad-drefnu'r is-bwyllgorau a fydd yn adrodd i'r corff llywodraethu, cafodd aelodaeth yr is-bwyllgorau newydd neu ddiwygiedig eu hystyried gan y Pwyllgor Enwebiadau ar 06 Mehefin 2018.
2. Roedd yr adroddiad yn defnyddio gwybodaeth o gynnig ar wahân i'r Cyngor yng nghyswllt cylchoedd gorchwyl diwygiedig i'r is-bwyllgorau yn y fframwaith newydd, ac yn argymhell nifer o benodiadau, y rhan fwyaf ohonynt i ddod i rym o 01 Awst 2018.

CYNGHORWYD

3. Cymeradwyo'r penodiadau arfaethedig i wasanaethu ar is-bwyllgorau newydd neu ddiwygiedig, yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Enwebiadau a nodwyd yn yr adroddiad (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

103. AELODAETH Y LLYS

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1718-121).

NODWYD

1. Yn rhan o'r gwaith o adolygu dogfennau llywodraethu'r Brifysgol, adolygwyd aelodaeth Llys y sefydliad hefyd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Cyngor a'r Is-Ganghellor, er mwyn gweld pa newidiadau dilynol fyddai'n angenrheidiol.
2. Cyflwynai'r adroddiad y diwygiadau arfaethedig i aelodaeth y Llys, yn cynnwys darparu ar gyfer cynrychiolaeth o rai cyrff allanol ychwanegol.

CYNGHORWYD

3. Y dylid cymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig i aelodaeth Llys y Brifysgol (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

104. DIWYGIADAU I ORDINHADAU

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1718-122).

NODWYD

1. Cafodd cais y Brifysgol i ddiwygio Siarter ac Ystatudau'r sefydliad eu cymeradwyo'n ffurfiol gan y Cyfrin Gyngor ar 27 Mehefin 2018. Daeth y diwygiadau i rym ar unwaith.
2. Wrth aros am ganlyniad cais y Brifysgol i'r Cyfrin Gyngor, roedd y Pwyllgor Siarter wedi adolygu Ordinhadau'r Brifysgol i nodi'r diwygiadau dilynol y byddai eu hangen pe cai'r diwygiadau i'r Siarter ac Ystatudau eu cymeradwyo. Yn rhan o'r gwaith hwn, fe wnaeth Dr Christopher Turner, cyn-Gofrestrydd a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Llywodraethu Prifysgol Caerdydd, a weithiodd gydag Ysgrifennydd y Brifysgol i ddatblygu'r diwygiadau arfaethedig i'r Siarter ac Ystatudau, adolygiad allanol o'r Ordinhadau i'w cymharu ag arferion y sector.
3. Nodai'r adroddiad y diwygiadau arfaethedig i'r Ordinhadau, a ystyriwyd gan y Pwyllgor Siarter yn ei gyfarfod ar 23 Mai 2018 ac ar ôl hynny trwy ohebiaeth. Cafodd yr Ordinhadau sy'n gysylltiedig â materion academaidd eu hystyried gan y Senedd ar 20

Mehefin 2018. Roedd y mân ddiwygiadau a gynigiwyd yn ystod y cyfnod cynnar hwn wedi eu hadlewyrchu yn yr adroddiad.

4. Roedd rhan olaf yr adroddiad yn cyflwyno diwygiadau a gynigir i Ordinhadau'r Brifysgol yn gysylltiedig â materion adnoddau dynol er mwyn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Ers cylchredeg yr adroddiad, roedd yr Undebau Llafur cydnabyddedig wedi cadarnhau eu cytundeb â'r diwygiadau arfaethedig.

CYNGHORWYD

5. Cadarnhau'r newidiadau arfaethedig i Ordinhadau'r Brifysgol, gan gynnwys dileu'r Ordinhad yn ymwneud â Swydd Anrhydeddus Trysorydd, cyfuno rhai Ordinhadau, ac ail-rifo'r holl Ordinhadau (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

105. DIWYGIADAU I'R RHEOLAU SEFYDLOG

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1718-123).

NODWYD

1. Oherwydd bod y Cyngor wedi cytuno mewn egwyddor ar 18 Mai 2018 i ad-drefnu pwyllgorau'r Brifysgol a'r cynigion pellach yn y cyswllt hwnnw a gyflwynwyd ar wahân i'r Cyngor, roedd y Pwyllgor Siarter wedi ystyried y newidiadau canlyniadol y byddai angen eu gwneud i'r Rheolau Sefydlog.
2. Nodai'r adroddiad y diwygiadau arfaethedig. Roedd mân newidiadau ychwanegol yn cael eu hystyried hefyd, yn enwedig yng nghyswllt cyfrinachedd, a derbyn cynrychiolwyr yng nghyfarfodydd y Cyngor a'r Senedd.
3. Cafodd y diwygiadau arfaethedig eu hystyried gan y Pwyllgor Siarter trwy ohebiaeth rhwng 22 a 27 Mehefin 2018, ac fe gytunodd yr aelodau i argymhell y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r newidiadau.

CYNGHORWYD

4. Y dylid cymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â'r Cyngor, y Senedd a'r pwyllgorau llywodraethu (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

106. CYMERADWYO PENDERFYNIADAU'N FFURFIOL

PENDERFYNWYD

Gan fod cworwm yn bresennol, y dylai'r materion a gwblhawyd eisoes ar sail ymgynghorol gael eu cymeradwyo'n ffurfiol, sef cofnodion: 86, 92, a 95 i 105.

107. EITEMAU ER GWYBODAETH

DERBYNIWYD

Derbyniodd aelodau adroddiad ynglŷn â'r canlynol er gwybodaeth:

1. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (COU1718-124);
2. Tueddiadau Digwyddiadau Iechyd a Diogelwch (COU1718-125); a
3. Cynnydd ynghylch argymhellion The Knowledge Partnership (COU1718-126).

NODWYD

4. Cynnwys yr adroddiadau a gyflwynwyd er gwybodaeth.

108. ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn cynnwys y canlynol (COU1718-127):

1. Pwyllgor Cyllid a Strategaeth (15 Mehefin 2018);
2. Y Pwyllgor Archwilio a Risg (15 Mehefin 2018);
3. Y Senedd (20 Mehefin 2018);
4. Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (14 Mehefin 2018);
5. Pwyllgor Datblygu Proffesiynol, Staffio a Chydraddoldeb (08 Mehefin 2018);
6. Pwyllgor Siarter (23 Mai 2018);
7. Pwyllgor Enwebiadau (06 Mehefin 2018);
8. Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol (14 Mehefin 2018);
9. Pwyllgor y Brifysgol a sefydlwyd i ystyried cynnig terfynol ad-drefnu'r Brifysgol (14 Mehefin 2018).

NODWYD

10. Yr adroddiadau a dderbyniwyd oddi wrth y pwyllgorau.

109. UNRHYW FATER ARALL

1. Ffarwelio

Byddai Lucy Hodson a Susan Chambers yn gadael y Brifysgol ar 20 a 31 Gorffennaf 2018, yn y drefn honno. Diolchwyd i'r ddwy am eu cyfraniad sylweddol i waith y Cyngor a'r sefydliad ehangach dros y blynyddoedd diweddar yn eu swyddogaethau, yn Gyfarwyddwr Cynllunio a Chyfarwyddwr Adnoddau Dynol.